

Gwerthusiad beirniadol a nodi'r camau addysgu a dysgu
nesaf sy'n canolbwyntio ar astudiaeth achos dysgwr
unigol neu grŵp o ddysgwyr, sy'n seiliedig ar ddigwyddiad
beirniadol a arsylwyd.

Cyfwyniad

Yn y traethawd hwn rwy'n mynd i canolbwyntio a'r achos critigol sydd wedi codi o fewn ysgol wrth arsylwi. Achosion critigol yw'r pethau sy'n digwydd o'i gwmpas dydd i dydd. Mae rhan fwyaf o sefyllfaoedd yn digwydd disylw ac yn eu derbyn am ymddygiad naturiol (Tripp, 2011). Ond wrth i ni edrych yn fwy manwl trwy arsylwi rydym yn gweld fod y digwyddiadau yma, bach neu fawr yn bwysig iawn er mwyn datblygu dysgu eu hun. Rydym yn arsylwi a dadansoddi'r hyn rydym yn gweld er mwyn cryfhau eu dealltwriaeth o'r meysydd dysgu, fel athrawon/myfyrwyr rydym yn edrych am beth sy'n gweithio o fewn ystafell dosbarth ac beth sydd agen newid. Trwy arsylwi, dadansoddi a gwerthuso rydym yn gallu gwneud hyn. Mae'r ystafell dosbarth yn lle hynod o ddefnyddiol i'w arsylwi, er bod nifer o bethau yn digwydd o'i gwmpas rydym yn gweld trwy lygaid eu hun adlewyrchiad naturiol, oherwydd hynny mae'r wybodaeth sy'n cael eu cofnodi yn fuddiol. Mae arsylwyr wedi defnyddio achosion critigol er mwyn dadansoddi nifer o agweddau gwahanol o ddysgu ac addysgu, mae nifer wedi helpu ni deall yn gliriach pam mae pethau'n digwydd yn yr ystafell dosbarth a sut gallwn ni helpu'r sefyllfaoedd gwahanol. Dros y hugain mlynedd diwethaf, mae rôl athrawon wedi enhangu yn fwy na pwnc arbenigol. Rydym yn deall yn fwy am y plentyn sydd o'i flaen ac beth sy'n helpu creu amgylchedd gorau iddynt llywddo (Muijs & Reynolds, 2010). Trwy arsylwi ac adfyfrio am sefyllfaoedd gwahanol rydym yn datblygu eu hun ac y amgylchedd o'i gwmpas i sicrhau fod pob disgybl yn elwa.

Aryslwi Cyd Destun Yr Ysgol a'r Dosbarth.

Sefydlwyd Ysgol X yn 2000 fel ysgol gyfun cymraeg cyntaf yr ardal ac er eu fod wedi uno gyda ysgol arall yn 2015 l fod yn ysgol 3-19 mae'r safonau ac teimlad catrefol wedi aros yng nghanol yr ysgol. Ers newid i ysgol 3-19 mae'r niferoedd o disgyblion wedi tyffi. Mae'r ysgol nawr yn darpau addysg i 1,120 o disgyblion. Mae hyn yn cael eu rhannu o 238 disgybl ym mlynnyddoedd 1-6 ac 882 ym mlynnyddoedd 7-13 gan cynnwys 128 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth (Estyn, 2019). Mae'r lleoliad yr ysgol yn galluogu amrhyw o blant o ardaloedd a cefndiroedd gwanahol i fynychu'r ysgol .

Mae rhan fwyaf o blant yn perthyn i grwp ethnig gwyn, darpara prydrau ysgol am ddim am 7.3% o'r ysgol sy'n llai na'r cyfartaledd cenedlaethol (Lleol, 2019). Mae'r ardal yn tueddol fod yn ardal seaseng serch hynny mae'r ysgol y pwysleisio ethos cymreictod tu fewn ac tu fas yr ysgol. Adlerwyrchwyd hyn gan staff ac hefyd ymisg y blant sy'n ymfalchio yn gymreictod. (Estyn, 2019) Mae'r ysgol wedi sefydlu amgylchedd hynod o teuluol ac wedi greu awyrgylch diogel er mwyn blant weithio ac llwyddo. Adlerwyrchodd hyn yn adroddiad Estyn yn 2019 ble llwyddodd I gael rhagorol yn fwy nag un maes (Estyn, 2019). Er fod yr ysgol yn hybu dosbarthiadau gallu cymysg gwelodd fod yr achos critigol wedi codi mewn gwrs pwnc craidd, ble roedd y disgbylion wedi eu setio. Arsylwodd dosbarth set 1 blwyddyn 8 oedd yn cynnwys 30 o blant, o fewn mewn gwrs mathemateg ar fore Dydd Mercher y chweched ar hugain o Fedi.

Methodoleg

Mae yna amryw o wahanol fodelau arsylwi gall defnyddio tu fewn ystafell dosbarth er mwyn cael darlun clir o weithredai dysgu ac addysgu. Mae yna nifer o dechnegau arsylwi sy'n effeithiol o fewn ysgolion. Mae rhain yn cynnwys recordio, cyfweiliadau a holiaduron, plentyn targed a siartiau tic (Cohen, 2017). Ffordd effeithiol o gasglu data yw arsylwi yn enwedig am faterion sy'n digwydd o gwmpas, mae'r wybodaeth sy'n cael eu casglu yn rhoi ystyr i'r ymddygiad dynol rydym yn weld (Foster, 1996). Mae'r technegau uchod yn ddefnyddiol iawn os ydych yn ymchwilio mewn i rywbeth penodol, ond gan fy mod yn edrych am y darlun cyfan, penderfynais gymryd nodiadau maes. Mae nodiadau maes yn dueddol o roi darlun manwl o beth rydym yn weld, profiad llaw gyntaf o ddysgu ac addysgu byw (Cohen, 2017). Mae yna nifer o faterion moesegol yn codi wrth wneud arsylwad enwedig pan rydych yn arsylwi plant. Cyn dechrau'r arsylwad roedd cael caniatâd yr ysgol gan fy mod yn arsylwi o fewn dosbarth, roedd y plant yn ymwybodol fy mod yn arsylwi ond nad oedd yn gwybod fwy am y resymau. Un anfantais o'r dull hon yw'r posibilrwydd i'r plant ymddwyn yn wahanol pan fod rhywun allanol yn eu harsylwi. Mae hyn yn cael eu hadnabod fel y "Hawthorne Effect" (David Buchanan, 1997) ble gwelodd gwahaniaeth mawr mewn gweithwyr oedd yn ymwybodol fod rhywun yn eu harsylwi i gymharu â'r rhai nad oedd mewn nifer o arbrofion yn y 30au (David Buchanan, 1997). Mae hyn yn arwain ni i feddwl nad oedd yn gweld argraff naturiol, serch hynny ar y cyfan mae plant o'r arfer gyda staff yn cymryd nodiadau o fewn gwrs, nid dylai hyn cael effaith eithafol (Foster, 1996). Un o'r agweddau pwysicaf ar y matter yw fod arsylwad strwythuredig yn rhoi hyblygrwydd iddynt fel arsylwr i weld pob agwedd o'r dosbarth.

Trwy gofnodi yn fanwl yr hyn welodd yn ystod y gwrsi roedd nifer o ddigwyddiadau gall ystyried fel achos critigol, er bod y gair critigol yn arwain ni i feddwl fod yr achos yn ddigwyddiad mawr nid yw

hyn yn wir. Mae achos critigol yn dibynnu ar ffordd fod ni fel yr arsylwr yn beirniadai sefyllfa, gall amrywio o ddysgu neu addysgu, rhywbeth sy'n cael eu dweud neu wneud neu hyd yn oed iaith gorfforol. Yr hun rydym yn ychwanegu trwy ddadansoddi sy'n eu gwneud yn achos critigol . Cred Tripp yw fod pob achos critigol yn cael eu creu, achos critigol yw'r ffordd mae'r arsylwr yn weld sefyllfa a phrosesi (Tripp, 2011). Mae'r achos yn gyd-dreiddiad o'r arwyddocâd y digwyddiad sy'n digwydd o flaen (Soltis & Phillips, 1998). Mae'r arsylwr yn cymryd diddordeb mewn digwyddiad positif neu negatif ac yn cysylltu'n fanwl y rhesymau tu ôl yr achos critigol.

Pedwar Pwrpas

Dechreuodd yr achos beirniadol ar ddechrau'r ail wers y dydd , cyn i'r plant cyrraedd y wers roedd yr athrawes wedi paratoi tasg o 12 cwestiynau mathemateg oedd yn amrywio o destunau gwahanol.

Roedd pob cwestiwn yn seiliedig ar waith mae'r disgyblion wedi astudio, naill ai ym mlwyddyn 8 neu ym mlwyddyn 7. Cychwynodd pob disgybl y dasg heb i'r athrawes ofyn, fel traddodiad. Rhaid egluro nid oedd disgwyl i bob disgybl gorffen pob cwestiwn, pwysleisiodd yr athrawes hon er mwyn sicrhau nad oedd y plant yn or-boeni. Ar ôl chwarter gofynnodd y disgyblion i orffen y cwestiwn roeddnt arno er mwyn mynd dros yr atebion fel dosbarth. Roedd cwestiwn un yn ofyn am arwynebedd triongl (9cm uchder 8cm hyd) dwedodd disgybl A "36", er bod yr ateb yn gywir ($9 \times 8 \div 2 = 36$) nad oedd hyn yn ddigon i cael marciau llawn. Gofynnodd yr athrawes eto gan esbonio er bod y rhif yn gywir nad oedd yn ateb derbyniol.

Disgybl A: "9x8=72cm (pwyslais ar y uned)"

Athrawes: un marc

Disgybl A: gan fod hyn yn arwynebedd triongl rhaid rhannu 72 gyda 2 sy'n rhoi 36

Athrawes: cywir 2 marc

Disgybl A: uchwanegu'r uned 36cm²

Athrawes: cywir marciau llawn.

Mae'r sefyllfa yma yn ddangos yn glir sut mae'r athrawes yn anog eu disgyblion i gymrud blachder yn eu gwaith, trwy gofyn i'r disgybl i egluro yn fwy mae'r athrawes yn datblygu siglliau rhifedd ac cyfathrebu sydd rhan o'r cwricwlwm newydd. Mae yna nifer o agweddau yn yr achos yma sy'n cysylltu i'r cwricwlwm newydd yng Nghymru. (Donaldson,2015). Ar ôl i ganlyniadau Pisa, ble roedd perfformiad Cymru wedi cwmpo i'r gwaelod yn Phrydain am y trydydd tro yn olynol. Cwmpodd yn fwy ar ol i fwy o wledydd ymuno yn 2007. Gwelodd Cymru mor isel a phedwar deg wyth o'r chwe deg wyth gwledydd gwahanol . Gwelodd Cymru cwmpo ar draws Gwyddoniaeth, Mathemateg a llenyddiaeth (BBC, 2013). Roedd hyn wedi achosi argyfwng ar draws y system addysg ac llywodraeth Cymru, dywed Carwyn Jones (prif weinidog cymru ar y pryd) fod y calyniadau "make uncomfortable reading" (BBC,2013). Gwelodd fod yr agen am newid yn gyflym er mwyn arwain plant Cymru ymlaen gyda'r sgilliau agenrheidiol .Mae'r adolygiad Donaldson wedi newid agweddau tuag dysgu yng Nghymru ac wedi sefydlu i gymryd addysg Cymru ymlaen i'r 21ganrif (Wales Online, 2016). Mae'r cwricwlwm wedi eu hymgorffori mewn i 4 diben gwahanol.

Ddysgwyr uchwelgeisol

Unigolion iach a hyderus

Gyfranwyr mentrus, creadigol

Ddinasyddion egwyddorol, gwybodus.

Credaf fod yr achos yn dangos agweddau o'r pedwar diben o'n yn sicr un diben yn bennaf sef i greu dysgwyr uchelgeisiol a galluog. Gan fod yr athrawes yn yr achos yn annog i'r plant esbonio'n dyfnach yn lle derbyn un ateb mae'n galluogi i'r disgyblion i feddwl yn fwy manwl am eu gwaith, yn annog y disgybl i egluro'r dulliau y maent yn dysgu amdanynt yn lle derbyn y lleiafswm (Barnes, 2015). Gan gyfathrebu'n glir, cam wrth gam maent yn ysbrydoli unigolion i fod yn hyderus nid dim ond o flaen y dosbarth ond mewn gwaith eu hun. Mae hyn yn dangos yn glir fod rhaid dysgu'r plant i gymryd cyfrifoldeb dros ddysgu eu hun yn gynnwys er mwyn paratoi am y dyfodol.

Adolygiad Llenyddiaeth

Wrth ystyried y gosodiad uchod yn ofalus, gwelir bod nifer o faterion allweddol yn codi. Wrth edrych ar y digwyddiad critigol o'r tu fas dydi hi ddim yn taro fel rhywbeth "critigol". Cryfder defnyddio techneg yma yw'r ffordd rydym ni fel arsylwr yn edrych ar sefyllfa benodol ac yn dadansoddi'r

wybodaeth am hyn rydym yn gweld. Cododd sawl mater wrth ddadansoddi'r achos gallwn ymchwilio. Yn gyntaf mae'r plant yn dechrau'r dasg heb i'r athrawes gofyn, mae hyn ddangos fod yr athrawes wedi sefydlu hyn fel trefn o fewn y dosbarth . Gallwn gysylltu hyn gyda gwaith Ivan Pavlov, a chyflyru clasurol (Soltis & Phillips, 1998). Yn yr achos yma mae'r plant wedi cyflyru i weld y dasg ar y bwrdd ac yn eu dechrau. Mae'r plant yn ymwybodol beth yw'r disgwyliadau'r athrawes ac yn barod i weithio, mae'r amgylchedd i gweithio yn cael eu gosod y eiliad mae'r disgyblion yn cerdded fewn i'r dosbarth. Wrth osod hyn fel trefn nid yw'r athrawes yn gadael amser i'r plant colli ffocws. Dadlau nifer fod yr amser ar ddechrau'r wers yw'r fwyaf pwysig ac yn gosod y drefn am weddill y wers (Cowley, 2014). Mae'r dechreuad y wers yn hollol bwysig o fewn ysgolion, fel rydym yn gwybod mae plant yn dueddol siarad am nifer o bethau wrth fynd i'r wers nesaf. Yn y bore gall fod beth ddigwyddodd y noson cyn neu ar y teledu, hefyd rhaid ystyried y prynhawn ble mae plant yn dueddol siarad am amser cinio (Runeckles, 2018). Canlyniad hyn felly yw fel arfer gwario 10 munud cyntaf y wers trwy ofyn plant i fod yn dawel a setlo. Mae'r achos yma yn esiampl effeithiol o osgoi hyn, trwy addysgu clyfar a syml.

Un o'r agweddau pwysicaf sy'n codi yn ystod yr achos critigol byddaf yn focysu arno yw'r elfen o actifadu gwybodaeth flaenorol (activating prior knowledge) (Campbell & Campbell, 2009). Cysyllta gwybodaeth flaenorol mewn addysgu gyda'r wybodaeth sydd gyda'r plant am bwnc penodol (Robert, 2004), ehangodd eraill ar hyn gan ddweud fod gwybodaeth flaenorol yw'r wybodaeth i gyd sydd gan blant (Dochy & Alexander, 1995). Cyn pob gwrs mae dysgwyr yn cyrraedd gyda gwybodaeth flaenorol sy'n galluogi nhw i wneud cysylltiad gyda'r wybodaeth newydd, nid yw un disgybl yn dod atom mewn "stad wag" (Cummins J). Mae'r dechneg yn ddatblygiad o'r damcaniaeth gwybyddol Piaget (1936), dywed Piaget fod datblygiad plant yn cael eu rhannu mewn i 4 cyfnod. Y cyfnod synhwyrdd-weithredol sy'n parhau o enedigaeth hyd at 2 oed. Yr ail gyfnod, cyfnod cynweithredol (2-7 oed) ymlaen i'r stad weithredu ddiriaethol (7 i 11) ac yna yn gorffen gyda stad weithredu ffurfiol. Cred damcaniaeth Piaget yw fod plant yn datblygu dealltwriaeth y byd trwy'r amgylchedd o'i gwmpas ac mae'r profiadau yn ystod cyfnodau allweddol yma yn galluogi nhw i ragdybio am sefyllfaoedd newydd. Agwedd o'r ddamcaniaeth Piaget a'r theori wybyddol yw'r pwysigrwydd "schemas" . Yn fras, "Schemas" yw'r llawr gwaelod eu gwybodaeth ar hynny mae popeth arall yn cael eu hadeiladu. Awgryma Piaget fod "schemas" yw'r categori o wybodaeth a hefyd y broses o gael gafael ar wybodaeth. Os rydym yn edrych ar yr achos critigol rydym weld cysylltiad rhwng dechrau'r wers gyda thasg sy'n seiliedig ar wybodaeth flaenorol, mae'r wybodaeth yma yn galluogi plant gwneud cysylltiad gyda'r wybodaeth newydd sef prif dasg /nod y wers (Muijs & Reynolds, 2010). Er mwyn egluro hyn gellid gweld fod y dasg gychwynnol yn cynnwys arwynebedd triongl, nod y wers oedd dysgu arwynebedd trapesiwm. Er mwyn cryfhau'r siawns o ddeall

gwybodaeth newydd mae'r athrawes wedi defnyddio gwybodaeth flaenorol disgyblion gyda'r gobaith bydd y cysylltiad yn cael eu neud. Hynny yw, fwy o wybodaeth rydym yn gwybod am bwnc penodol (yn yr achos yma mathemateg) fwy o wybodaeth rydym yn gallu dysgu. Dadl debyg sydd gan Barak Rosenshine sy'n cryfhau'r pwysigrwydd o actifadu gwybodaeth flaenorol gan ddweud fod yr athrawon mwyaf effeithiol yn dechrau gyda deg munud o dargedu gwybodaeth flaenorol (Rosenhine, 2012). Trwy greu tasg sy'n targedu gwybodaeth flaenorol, sy'n annog disgyblion i feddwl yn fanwl a threfnu eu hatebion, mae'r disgyblion yn ffocysu yn glir ar gynnwys y pwnc. Gellid dadlau ymhellach gan ddweud fod y dasg hefyd yn adolygiad o wersi blaenorol, gan ddefnyddio amryw o gwestiynau gwahanol mae'r athrawes yn defnyddio'r amser cychwynnol i ymarfer pethau maen nhw wedi dysgu'n barod. Wrth sefydlu'r sgiliau, cysyniad a thechnegau yn y gof hir tymor trwy ymarfer mae'r ymennydd yn gallu atgofio diymdrech ac yna eu defnyddio i ddeall gwybodaeth newydd (Rosenhine, 2012). Esiaml o hyn yw cofnod o arbrawf dosbarth ble roedd set o blant yn cael 8 munud o adolygiad mathemateg pob dydd (ysgol gynradd) roedd yr adolygiad yn targedu dulliau a sgiliau Maths, welodd fod dosbarth oedd yn derbyn adolygiad dyddiol yn ennill canlyniadau gwell i gymharu'r dosbarthiadau eraill (Rosenhine, 2012). Er bod hyn yn arbrawf ysgol gynradd, mae'r dechneg o adolygiad wybodaeth flaenorol yn cryfhau dealltwriaeth plant ac yn cefnogi'r defnydd o gwybodaeth flaenorol.

Ar wahân i hynny gellid hefyd edrych ar bwrpas y dasg fel asesu ar gyfer dysgu, mae Black a William yn llyfr "Inside the blackbox" yn dehongli asesiad fel "yr holl weithgareddau a wneir gan athrawon a'u myfyrwyr wrth ddysgu, sy'n darparu gwybodaeth i'w defnyddio fel adborth i addasu'r gweithgareddau addysgu a dysgu y maent yn ymwneud a hwy" (Black & William, 1996). Mae'r system addysg yng Nghymru yn ganol broses o ddatblygu am y dyfodol gyda'r cwricwlwm newydd. Mae fwy o bwyslais yn cael eu rhoi ar y disgybl trwy ddysgu annibynnol. Mae ysgolion yn dechrau newid oddi wrth draddodiad addysgu uniongyrchol er mwyn rhoi llais i'r disgybl, er mwyn anog cyfrifoldeb dros ddysgu eu hun. Wrth wneud hyn mae nifer yn awgrymu fod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth eu hun am yr hyn maent yn dysgu, mae nifer yn pwysleisio fod rôl yr athro wedi addasu er mwyn hybu'r llais y disgybl i gryfhau ac i wneud gwrandawriad yr athro yn well (Black, 2003, Tud.59). Agwedd bwysig ar fater hwn yw'r ffordd o asesu mae'r athrawes yn defnyddio. Trwy ddefnyddio asesiad ffurfiannol am ddysgu mae'r athrawes yn gadael i'r plant datblygu eu dealltwriaeth trwy broses eu hun, mae'r cyfathrebu rhwng yr athro a disgybl yn naturiol ac yn galluogi'r disgybl dod i gasgliad annibynnol. Mae'r term asesiad ffurfiannol fel arfer yn cynnwys 'feedback' yn lle cofnod o marciau/ calynidau. Mae llawer yn cwestiynu sut mae'r datblygiad neu gynydd yn cael eu mesur, mae'r dilysrwydd y dechneg yn cael eu herio. Serch hynny mae nifer o blaid y dechneg. Cred Gavin T.C Brown yw bod ddysgu da yn ymatebol i'r disgyblion, mae yna

ryngweithio yn y foment 'on the fly' er mwyn neud addasiadau (Brown, 2016). Mae'r ddadl yn cael eu cryfhau gan (Hattie & Tiuperley, 2007) sy'n dweud fod myfyrwyr yn dysgu yn effeithiol pan mae adborth yn cael eu rhoi sy'n gosod targedau heriol ond cyfiawnadwy. Agwedd iawn mor bwysig yw effaith o ddefnyddio asesiadau ar gyfer dysgu yw'r faith fod y dechneg yn hynod o ddefnyddiol i weld dealltwriaeth y disgyblion heb roi pwysau arholiad iddynt. Mae'r straen o amodau arholiad yn cael effaith mawr ar les rhai disgyblion, mae'r ffurf yma o asesu yn osgoi hyn gan roi'r un canlyniad. Nid yw'r plant yn teimlo fod unrhyw bwysau ar yr ateb felly rydym yn weld beth mae'r plant yn deall neu gam ddeall mewn ffyrdd naturiol. Nid yn unig y straen o'r geiriau "arholiad" yn cael eu hosgoi ond hefyd y broses o adolygu sy'n arwain tuag at y dyddiad terfynol. Wrth wneud asesu naturiol ar gyfer dysgu rydym yn weld yr wybodaeth sydd gan y disgybl o fewn yr eiliad yna, dim ond trwy wneud asesu ar gyfer dysgu yw'r athro yn cael gwybodaeth glir a dibynadwy o'r ddealltwriaeth y disgybl ar ôl neu cyn gwersi. Gallwn ddadlau gan adael y broses tan ddiwedd tymor, rydym yn aros tan y munud olaf i weld pa lefel yw'r disgybl arno. Ar y cyfan mae pob ymarfer dysgu gyda'r potensial i fod yn bwerus a bwysig ond er mwyn hybu datblygiad cwm wrth gam mewn disgyblion mae'r ymarfer uchod yn un gryf iawn (Brown, 2016). Mae'r achos uchod yn dangos yn glir yr effaith positif mae'r dechneg yn cael, rydym yn weld sgwrs naturiol rhwng y disgybl ac athro wrth asesu atebion nid oes straen ar y disgybl ac gwelwn yn glir dealltwriaeth o'r gwaith.

Rhaid tynny sylw i'r wrthwynebiad i asesu ar gyfer dysgu, mae yna deimlad o amharodrwydd gan athrawon ac ysgolion gan fod gormodedd o bwysau i lwyddo. Mae Marsh yn ehangu hyn gan ddweud fod y cyfryngau a rhieni yn rhoi gormod o bwysau ar athrawon "constantly bombarded" i gael y canlyniadau gorau mewn arholiadau ac yr agen am gyflawniadau uchel fod dechnegau fel asesu ar gyfer dysgu yn cael eu hanwybyddu (Marsh, 2006). Mae Marsh yn mynd mor bell a dweud fod yna 'cultural nature' mewn addysg sy'n edrych am lefel neu gradd. Pan rydym edrych ar addysg heddiw ym Mhrydain gyda'r pwysau profion cenedlaethol, Tgau, Lefel A a Phrifysgolion gwelwn faes sy'n dibynnu ac yn gwobrwyo lefelau ac nid meddwl beirniadol (Marsh, 2006). Yn yr un modd yr unig ffordd rydym ni yn y byd addysg yn gallu cryfhau eu hyder i ddefnyddio techneg o asesu ar gyfer dysgu yw arsylwi a thrafod gydag athrawon profiadol fel gwelodd yn yr achos critigol.

Gwerthuso

Fel unrhyw arbrawf neu ddigwyddiad rhaid gwerthuso er mwyn datblygu eu hun am y dyfodol, gall cymryd agweddau positif neu ardaloedd rydym yn feddwl gall gwella neu osgoi. Rydym yn gweithio mewn proffesiwn ble nid yn unig plant ond hefyd oedolion yn dysgu trwy werthuso. Mae hyn yn agwedd hynod o bwysig gan fod technoleg ac ymwybyddiaeth y maes yn datblygu pob dydd. Hunan datblygiad trwy werthuso eu profiadau yn arwyddocâd o ymarfer dda (Foster, 1996). Beth sy'n

bwysig i'w dweud pan rydym yn gwerthuso dros arsylwad yw bod hyn yn gyfle i awgrymu ac ystyried y ddwy ochr, nid cyfle beirniadu'r hyn sydd wedi digwydd. Arsylwodd dau ddiwrnod cyfan yn ysgol x, mae hyn yn gyfanswm o deg gwers wahanol. Penderfynais gofnodi yn fanwl am bedwar gwers oedd yn cynnwys achos critigol potensial, yna defnyddiais y daflennu BWA oedd yn cyfleu fy nheimpladau am yr achos ac yn esbonio mewn cyd-destun dysgu yn fwy manwl.

Defnyddiodd ffurflen Model Beirniad wedi adfyfyrio er mwyn gwerthuso dros yr achos critigol. Mae'r model Gibbs yn galluogi ni i adfyfyrio'r hyn arsylwodd gan osod y camau nesaf am wella, mae Gibbs hefyd yn pwysleisio fod dysgu yn digwydd trwy brofiad, mae hyn cael eu dangos yn eu cylchred. Mae Gibbs (1988) yn cyflwyno chwe elfen o adfyfyrio sef Disgrifiad o'r achos. Dadansoddi'r teimpladau, gwerthusiad o'r profiad, Dadansoddi er mwyn deall y profiad. Mae'r ddwy elfen olaf yn gylchred Gibbs yn cael eu dehongli fel Casgliad mae'r casgliad yn annog ni i feddwl am ddulliau arall a beth gallwng ni gwneud yn wahanol. Mae Gibbs yn cloi gyda 'Action Plan' ble mae rhaid meddwl beth fydd yn digwydd os yw'r un sefyllfa yn digwydd to (Bassot, 2016).

Wrth edrych yn ôl, mae'r arsylwad yn codi nifer o bethau gall gwella os pan fyddaf yn gwneud arsylwad yn y dyfodol, un mater amlwg sy'n codi wrth adfyfyrio yw'r faith wnes i gymryd y nodiadau yn gefn y dosbarth. Mae nifer o achosion potensial yn cael eu colli trwy aros yn un lle, yn anffodus nid yw'r darlun cyfan o'r dosbarth yn cael eu hystyried. Mae'r prif ffocws yr arsylwi ar rôl yr athro ac nid y disgybl neu grŵp. Wrth ystyried y camau nesaf byddaf yn crwydro'r dosbarth cyfan, bydd hyn yn rhoi adlewyrchiad mwy defnyddiol o'r dosbarth. Gan fod ysgol x yn defnyddio setiau gallu a gallu cymysg wnes i golli'r siawns o weld sut mae'r dosbarth yn amrywio, roedd amgylchedd y dosbarth yn newid pob gwers. Wnes i ddim ond gweld un dosbarth mathemateg, byddaf yn ddefnyddiol tro nesaf os gall weld yr un dosbarth am gyfnod hirach er mwyn gwneud fy nehongliadau yn fwy dibynadwy.

Mae yna nifer o dystiolaeth sydd yn cefnogi'r effeithiolrwydd yr addysgu sy'n digwydd yn ystod yr astudiaeth achos. Mae'r astudiaeth achos yn dangos yn glir pa mor effeithiol yw asesu ar gyfer ddysgu a hefyd dargedu gwybodaeth flaenorol mewn tasg agoriadol. Serch hynny mae'r achos critigol yma yn codi meysydd sy'n agor i ddadlau. Wnes i ffocysu a'r agwedd asesu ar gyfer dysgu fel techneg hynod o effeithiol, wrth ddarllen yn fwy mae yna nifer o dystiolaeth sy'n cefnogi, serch hynny rhaid ystyried y darlun mawr. Un ddadl fawr yn erbyn y dechneg yma o asesu yw'r faith nid yw'r canlyniadau yn cael cofnodi. Gan edrych ar yr achos rydym yn gweld dyw'r data dim yn cael eu cofnodi, mae hyn yn gwneud hi'n anodd gweld cynnydd y disgyblion. Credaf yn gryf fod asesu ar gyfer dysgu yn ffordd hynod o ddefnyddiol, dylai ni osgoi os posib rhoi pwysau ar blant gan roi arholiad ar ôl arholiad er budd lles y plant ond credaf dylai rhyw fath o gofnod cael eu gwneud er

mwyn gweld cynnydd/gwendid blant. Y farn gyffredinol heddiw yw bod pob disgybl yn unigol, nid yw'r faith fod un dechneg yn gweithio am un disgybl yn golygu fod pob disgybl elwa.

Casgliad

Wrth ysgrifennu ac ymchwilio yn ystod y traethawd, gwelodd y gwahanol ochrau am beth sy'n gwneud addysgu a dysgu da ac effeithiol. Mae athrawon ac addysg yn gyffredinol yn amrywio eu dulliau tro ar ôl tro er mwyn sicrhau fod y plant yn elwa. Fel rydym yn gwybod mae'r byd wedi datblygu ar raddfa anghredadwy yn y hugain mlynedd diweddaf ac yn disgwyl i newid hyd yn oed yn fwy yn y hugain i ddod. Mae'r dasg sydd gennym ni fel athrawon/ addysgwyr i'w i baratoi'r plant am y dyfodol yma, a chyfarparu gyda sgiliau a gwybodaeth i flodeuo. Yng Nghymru mae'r adolygiad Professor Donaldson, Dyfodol Llwyddiannus yn gynllun angenrheidiol am wlad sydd wedi cwmpo tu ôl mewn safonau disgwylidig. Beth welodd trwy arsylwi oedd amgylchedd gwahanol o ddysgu ac addysgu un oedd yn annog disgyblion i arwain a chymryd cyfrifoldeb dros ddysgu eu hun a'i gilydd, amgylchedd oedd yn hybu hunan hyder a balchder yn eu gwaith. Gwelodd pwysigrwydd arsylwi o fewn dosbarth a deall nid yn unig beth sy'n digwydd ond pam mae'n digwydd trwy dansoddi'r data gasglodd ac ymchwilio'n fanwl, ymarfer angenrheidiol er mwyn datblygu'n broffesiynol. Mae dysgu yn digwydd o fewn y dosbarth, nid yn unig am y disgyblion ond am athrawon hefyd. Mae'r adfyfrio trwy ddefnyddio BWA (Gibbs, 2008) wedi galluogi i fi dadansoddi fy nheimladau am yr hyn gwelodd. Credaf fy mod wedi creu darlun clir am yr hyn gwelodd fel achos critigol a'u heffaith mewn cydestun addysgol. Mae'r dull adfyfrio wedi gadael i fi feddwl am y camau nesaf os gwelwn sefyllfa debyg yn fy ngyrfa.

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 26/09/2019
Manylion y wers: Fel tasg gychwynnol roedd rhaid i'r disgyblion newid brawddegau i'r ffordd gywir. Roedd hyn yn hyn mynd dros beth ddysgodd y wers diweddar. Nad oedd rhaid i'r plant cwblhau pob un gan fod yn dasg ddechreuol. Roedd prif ffocws y wers am ddsygu pethau sydd yn yr ysgol. Roedd yr athrawes yn ailadrodd gwahanol bethau gall fod mewn ysgolion. gyda'r plant yn ymateb yn ôl ar lafar tan fod yr athrawes yn hyderus fod y plant yn deall a gallu adrodd pob un. Roedd hyn yn arwain i'r dasg ysgrifenedig cyntaf. Roedd rhaid i'r plant gwahanu'r pethau mewn i dri gwahanol gategori gan ddefnyddio brawddegau llawn. Yna roedd rhaid i'r plant cwblhau asesiad gwranddo, ble roedd rhaid llenwi bylchau'r paragraff oedd yn cael eu hadrodd ar dap. Cyn diwedd y wers roedd y disgyblion wedi dechrau tasg ysgrifenedig ble roedd rhaid iddyn nhw wneud paragraff eu hun.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Roedd y dasg agoriadol wedi setlo plant yn dda gan fod y dasg yn barod iddyn nhw wrth ddo i mewn. Roedd 5 wahanol frawddeg i newid, i gyd gyda lefelau anhawster gwahanol, felly roedd pob disgybl yn gallu ffocysu ar un neu fwy. Roedd y plant yn wneud y dasg ar fyrdiaid gwyn ac yn gysylltiedig gyda'r wers flaenorol felly roedd pob disgybl yn gallu cwblhau. Roedd y tasgau wedi amrywio o ddwy dasg ysgrifenedig ac un dasg gwranddo, roedd rhyddid gan y plant yn ystod y tasgau ysgrifenedig i sôn am ysgol ddelfryddol nhw, gan ddisgrifio a defnyddio'r geiriau newydd. Roedd y plant wedi cael hwyl yn siarad am eu hysgol ddelfryddol ac roedd hyn wedi adlewyrchu yn eu gwaith.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Roedd gweithgareddau'r wers wedi strwythuro yn glir i'r amcan y dydd a hefyd mewn i'r gwersi i ddo. Roedd y wers wedi adeiladu yn gyntaf i ddysgu pethau sydd o'i gwmpas y disgyblion neu gall fod o gwmpas mewn ysgolion ar lafar gan wedyn defnyddio'r geiriau mewn brawddegau llawn yn eu llyfrau. Roedd hyn wedi arwain mewn i'r dasg gwranddo, gan fod rhaid llenwi'r geiriau oedd ar goll gan ddefnyddio rhai o'r geiriau roedd y disgyblion newydd ddysgu. Wrth wrando a chofnodi beth oeddent nhw'n clywed, gyda'r brawddegau roedd y disgyblion wedi gwneud yn y dasg ysgrifenedig cyntaf roedd y strwythur a gybodaeth gyda nhw i wneud paragraff eu hun.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Roedd pob un o'r tasgau yn ystod y wers yn glir i'r myfyrwyr dilyn, roedd y wers wedi adeiladu gyda thasg lafar i gychwyn, gyda'r dosbarth yn ailadrodd. Roedd pob disgybl yn

cymryd rhan yn y wers ac y weld y budd mewn dysgu pethau oedd o gwmpas. Roedd y tasgau oedd yn dilyn wedi datblygu o'r dasg lafar, roedd pob un yn arwain mewn i'w gilydd ac wedi adeiladu o gwmpas yr amcan y wers (pethau yn yr ysgol) Nad oedd yr athrawes wedi gorlwytho'r geiriau ar y disgyblion ac nad oedd wedi colli nod penodol y wers, roedd pob tasg gyda'r amcan wedi eu sefydlu yn y dasg.
Mynediad a her (Ydy pob myfyrwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyrwr ei herio?) Roedd pob tasg yn ystod y wers yn cynnwys heriau gwahanol, roedd y dasg agoriadol yn cynnwys pum cwestiwn, roedd y cwestiynau yn mynd yn fwy anodd wrth fynd ymlaen. Nad oedd yn disgwyl pob disgybl i ateb pob un ond roedd yr athrawes yn annog, a helpu disgyblion oedd agen. Roedd y dasg ysgrifenedig y wers yn gadael y plant fod yn greadigol gyda'u Ffrangeg, roedd strwythur penodol i ddilyn e.e.. Mae gan eu hysgol nhw llyfrgell ond roedd yr athrawes yn annog plant i ehangu eu Ffrangeg gan ddefnyddio ansoddeiriau gwahanol. Roedd yr athrawes yn annog plant i ofyn ei gilydd os oedd cwestiwn penodol am y dasg, neu roedd yr athrawes yn disgrifio'r ateb, roedd hyn yn arwain i blant gweithio allan yr ateb eu hun allan.
Asesu Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu? Cyn y wers roedd tasg gychwynnol wedi eu gosod ar y bwrdd, roedd y dasg yn seiliedig ar hyn maen nhw wedi neud yn y gwersi diweddar ac yn cynnwys 5 cwestiwn gwahanol. Nad oedd yn disgwyl i bob disgybl cwblhau pob cwestiwn ond roedd pob un o allu gwahanol. Roedd y dasg asesu gwranddo, sef prif dasg asesu yn ystod y wers yn cael eu hunan asesu gan y plant. Roedd rhaid iddynt wrando a'r paragraff a llenwi'r bylchau. Roedd yr athrawes wedi chwarae yn llawn yn gyntaf, yna eto ond yn stopio ar ôl pob ateb er mwyn i bawb cael cyfle i lenwi. Roedd pob gair wedi eu rhoi iddynt ar waelod y papur ond nad oedd mewn trefn. Wrth i'r wers gorffen roedd y disgyblion wedi codi ti ôl eu cadeiriau, cyn i'r gloch fynd roedd yr athrawes yn ysgrifennu un o'r geiriau roedd y dosbarth newydd ddysgu yn ystod y wers ar fwrdd gwyn. Roedd disgwyl i unigolion difai beth oedd ar y bwrdd er mwyn gadael. Roedd hyn yn asesu pa eiriau roedd y disgyblion yn cofio a hefyd asesu sut mae unigolion yn pwysleisio pob gair.
Manylebau / Achosion Beirniadol Oes adegau ac enghreifftiau trawidiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod? Ar ddechrau'r wers roedd un disgybl wedi anghofio eu llyfr, roedd y disgybl (A) yn yr achos yma wedi dweud wrth yr athrawes nad oedd llyfr gyda hi. Oherwydd hyn roedd rhaid i'r disgybl defnyddio papur i gwlblhau'r gwaith. Roedd yr athrawes wedi dweud yn dawel i'r disgybl os bydd hyn yn digwydd bydd agen rhoi cosb.

NODIADAU ARSYLWI / MAES

(Cwestiynau wedi eu haddasu o Fletcher Wood (2016))

Dyddiad: 02/10/2019
Manylion y wers: Cymraeg. Thema'r wers oedd "Perthyn" roedd lluniau o wahanol fathodynau ar y bwrdd am y dasg gychwynnol. Roedd rhaid i'r dosbarth trafod beth oedd pwrpas bathodyn ac yna ar ôl weld bathodynennau enwog trafod beth oedd y bathodyn yr ysgol yn cynrychioli iddyn nhw. Gan trafod ac yna ysgrifennu am agweddau gwahanol o'r bathodyn gan gynnwys y lliwiau a symbolau.
Diwylliant ar lawr dosbarth (Ydy'r myfyrwyr yn canolbwyntio ar ddysgu?) Roedd y dasg o fathodyn wedi apelio at bawb yn y dosbarth, yn lle trafod bathodyn pêt droed neu rygbi defnydd y bathodyn yr ysgol er mwyn sicrhau fod pawb yn gallu cymryd rhan. Roedd diddordeb gan bawb yn y dosbarth i gyfrannu a dysgu fwy am deulu nhw.
Amcanion (Oes pwrpas clir i'r wers? Sut mae gweithgareddau'r wers yn hyrwyddo'r pwrpas hwnnw?) Amcan y wers oedd trafod/ysgrifennu am beth mae'r bathodyn ysgol yn cynrychioli i'r disgyblion, pam oedd y lliwiau yn cael eu defnyddio a beth oedd y symbol yn golygu iddyn nhw. Roedd pob disgybl yn dadansoddi agweddau gwahanol er mwyn esbonio yn glir am y bathodyn. Roedd y wers yn dilyn y thema "Perthyn" gan fod y disgyblion i gyd yn perthyn i deulu'r ysgol a hefyd y gymuned o'i gwmpas. Roedd y wers wedi dechrau gan atgoffa'r plant am y thema perthyn, gyda lluniau o fathodynennau enwog ar y bwrdd. Roedd rhaid i'r plant trafod hyn cyn arwain i mewn i'r brif dasg.
Cyfarwyddyd (Ydy'r myfyrwyr yn glir am beth maen nhw'n ei wneud a sut i'w wneud yn dda?) Roedd brif dasg y wers, ysgrifennu paragraff am fathodyn yr ysgol yn cynnwys camau gwahanol ar y bwrdd gwyn er mwyn i'r plant dilyn. Roedd hyn yn rhoi strwythur i'r plant trwy gydol y dasg, roedd yna hefyd geiriau cyswllt ac allweddol i'w gynnwys, geiriau roedd yr athrawes yn ffocysu arno er mwyn cael marciau da. Roedd yr athrawes yn annog i'r plant uwchleuo y geiriau wrth fynd ymlaen, i wneud yn siŵr fod y geiriau yn cael eu defnyddio.
Mynediad a her (Ydy pob myfyrwr yn gallu dilyn y wers? A gaiff pob myfyrwr ei herio?)

Yn ystod y dasg ysgrifenedig roedd yr athrawes wedi creu brawddegau agoriadol er mwyn helpu rhai o'r plant cychwyn y gwaith, roedd hefyd ychydig o eiriau cyswllt allweddol roedd yr athrawes yn annog y disgyblion i ddefnyddio. Roedd hyn wedi helpu ychydig o blant oedd yn cael trafferth dechrau neu strwythuro eu paragraff. Nad oedd fwy o wybodaeth wedi cael eu rhoi, roedd hyn yn gadael i'r plant creu gwaith unigol gan ddefnyddio geiriau eu hun.

Asesu
Sut mae'r athro yn asesu dealltwriaeth myfyrwyr cyn, yn ystod ac ar ôl y wers? Sut y defnyddir hyn wrth addysgu?
Yn ystod y wers roedd yr athrawes wedi defnyddio system golau traffig er mwyn sicrhau fod pob disgybl yn deall y dasg, roedd yr athrawes hefyd yn crwydro'r dosbarth yn clywed esiamplau gwahanol o bob disgybl.

Manylebau / Achosion Beirniadol
Oes adegau ac enghreifftiau trawidiadol y byddai'n ddefnyddiol eu trafod?
Ar ôl esbonio'r brif dasg y wers sef ysgrifennu paragraff am beth oedd bathodyn ysgol yn golygu iddyn nhw roedd y dosbarth i gyd wedi troi eu dyddiadur gwaith cartref i liwiau gwahanol (golau traffig) er mwyn ddangos os o nhw'n deallt y dasg neu yn cael anhawster. Roedd un (disgybl A) wedi troi eu dyddiadur yn oren (ddim yn sicr o'r dasg) roedd hyn wedi dangos i'r athrawes nad oedd yn siŵr am y dasg. O fewn llai na funud roedd yr athrawes wedi sylweddoli a helpu'r disgybl.

Yr Athrofa
Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Yr Athrofa

Addysg a'r Dyniaethau
Education and Humanities

Taflennu Arsywli 3 &4

Model Beirniad Wedi Adfyfyrion (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 02/10/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Diffyg Hyder mewn partner

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Teimlaf fod y sgiliau allweddol gyda'r disgybl i gwbhau'r dasg o safon uchel os roedd y disgybl yn gweithio ar eu hunan hyder a hyder mewn eu partner. Teimlaf fod yr athro wedi neud digon i sicrhau fod y disgybl yn saff wrth neud y gweithgaredd, er nad oedd yn gallu rhoi digon o fudd i neud y symudiad wyneb i waered.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Roedd diffyg hyder yn eu hun a'u partner wedi cael effaith mawr, nad oedd yn teimlo fod y gallu o ran hyblygrwydd neu gryfder i gwbhau'r dasg felly roedd yn fodlon rhoi'r gorau iddi yn hawdd. Welodd y disgyblion eraill o gwmpas yn ceisio'r dasg (rhai o safon dda rhai yn ceisio) ond eto nad oedd yn fodlon rhoi eu holl ymdrech i mewn.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Credaf gall gadw'r partneriaid y un peth gan fod y ddau yn ffrindiau, os yw'r targed nesaf yw datblygu hyder disgybl A bydd agen rhywun fod y disgybl yn ymddiried mewn.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Credaf gall gweithio ar sgiliau datblygu hyder y disgybl gall gwneud hyn trwy ffocysu ar beth yw'r brif broblem y dasg a thorri lawr yn fwy ac adeiladu mewn camau bach neu dro symudiad mwy syml cyn mynd mewn i'r symudiad heriol.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Model Beirniad Wedi Adfyfyrion (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 02/10/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Goleuadau Traffig

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Gwelodd fod y plant y defnyddio eu dyddiaduron Gwaith cartref er mwyn ddangos i'r athro os oeddent nhw'n deall y gwaith. Credaf roedd hyn yn rhywbeth syml iawn ond effeithiol a byddaf yn defnyddio yn y dyfodol.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Mae'r dechneg yma o asesu dealltwriaeth y plant yn hynod o ddefnyddiol i'r athro mae hyn yn osgoi dau peth gwahanol 1. Plant yn amhari ar y wers i ofyn cwestiynau amherthnasol 2. Plant sydd dim yn hyderus i ddweud fod nhw'n cael trafferth gyda'r dasg i gael yr help nhw agen
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Roedd y dechneg yn hynod o effeithiol gan fod pob disgybl yn elwa. Roedd y rhai oedd yn deall yn cwblhau'r dasg yn unigol ac y rhai oedd agen help yn aros. Nad oedd unrhyw un wedi amhari ar y wers
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Serch hynny er mwyn sicrhau fod pob disgybl gyda digon o amser i gwbhau'r dasg byddaf wedi gofyn i bartner i esbonio ble bosib yn lle fod disgybl yn aros neu ar ôl un cwestiwn gan disgybl byddaf wedi esbonio i'r dosbarth .
Y profiad newydd / Transformed experience	

Model Beirniad Wedi Adfyfyrion (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/9/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Diffyg Offer

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Mae'r digwyddiad yn un sy'n codi'n aml mewn ysgolion uwchradd felly arswyl i'r digwyddiad yn bwysig gan eu fod yn tebygol o digwydd yn y dyfodol. Roedd y offer yn llyfr dosbarth felly roedd rhaid i'r disgybl gwneud y gwaith ar papur.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Roedd rhaid i'r disgybl defnyddio papur i gwneud y dasg , atgoffaf y athro bydd rhaid copio lan ac neud yn siwr fod y gwaith heddi yn cael eu rhoi yn y lyfr. Hefyd esboniodd yn glir os byddaf y peth yn digwydd to bydd agen rhoi nodyn yn y dyddiadur.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Credaf roedd y ffordd o ddolli gyda'r sefyllfa yn dda, nad oedd y disgybl yn teimlo fod cosb am gangymeriad syml. Oherwydd hynny roedd y disgybl yn barod i weithio ac yn dangos parodrwydd i gopio lan.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Gwelodd fod nifer o blant yn defnyddio eu llyfrau gwaith er mwyn gweld gwaith blaenorol, yn anffodus i'r disgybl nad oedd yn gallu gwneud hyn. Byddaf wedi gadael i'r disgybl i weithio gyda phartner neu roi llyfr pwnc i'w helpu
Y profiad newydd / Transformed experience	

Model Beirniad Wedi Adfyfyrion (BWA) Assisted Reflective Conclusions (ARC) Model

Dyddiad/Date: 26/09/2019

Digwyddiad critigol (Ffocws)/Critical incident (focus): Asesu ar gyfer Dysgu

Profiad/ Experience	
Teimladau/ Feelings Beth yw eich teimladau ynghylch y profiad? "What are your feelings regarding the experience?"	Wrth arswylu gwnes i weld yr effeithiolrwydd o gael tasg wedi eu paratoi cyn i'r plant ddod i mewn, nad oedd y drafferth o osod tasg neu aros i'r cyfrifiadur dechrau. Roedd y plant yn gwybod y drefn a dechrau yn syth. Teimlaf fod y plant wedi dod fewn i'r dosbarth yn barod i weithio, nad oedd cyfle i fynd bant oddi ar y dasg ac roedd yr awr gyfan wedi eu defnyddio am ddysgu.
Cofio a Deall/ Remember and Understand "Allwch chi restru elfennau'r achos yng nghyd-destun y dysgu?" "Can you list the aspects of the incident in the context of learning?"	Teimlaf fod y dechreuad y wers wedi sefydlu amgylchedd weithio yn syth o fewn y dosbarth. Roedd amryw o gwestiynau wedi eu gosod er mwyn i'r plant ateb, roedd hyn yn golygu fod pob disgybl yn gallu cynnig (gwahaniaethu). Mae'r athrawes hefyd yn defnyddio asesu ar gyfer dysgu ar ôl i'r dasg gorffen. Ar ôl 10 myned roedd yr athrawes yn wedi gofyn i'r disgyblion i ateb y cwestiynau gan ofyn rhywun gwahanol pob tro, roedd disgwyl i'r disgyblion esbonio sut gafodd pob ateb.
Gwerthuso a dadansoddi/ Evaluate and analyse "Beth y gellid ei gadw yr un fath i sicrhau addysgu a dysgu effeithiol yn y dyfodol?" "What could be kept the same to ensure effective teaching and learning in the future?"	Credaf fod y dechneg o asesu ar gyfer dysgu yn gweithio'n dda, gan fod y athrawes yn eu defnyddio ar dechrau'r wers mae hi'n sicrhau rheloaith dros y dosbarth ac yn creu amgylchedd gweithio.
Casgliadau a chamau gweithredu/ Conclusions and actions "Beth yw eich atebion posibl i'r mater a nodwyd?" "Beth y gellid ei wneud nesaf?" "What are your possible solutions to the issue identified?" "What could be done next?"	Ar y cyfan credaf fod yr achos yma yn ddangos addysgu effeithiol, yn fy marn i byddaf yn cofnodi'r unigolion sy'n cael ateb anghywir felly mae yna cofnodi i cymharu cynnydd yn y dyfodol.
Y profiad newydd / Transformed experience	

Llefryddiaeth

- al, B. e. (2003). *Assessment for Learning: Putting it into Practice* . open university press .
- Adroddiad ar Ysgol , Estyn(2016)[ar lein] URL ddim ar gael oherwydd canllawiau BERA
- BBC Wales 2013 "Wales 2013 Pisa Results" [ar lein] <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-25025585>
- Barnes, J. (2015). *Cross-Curricular Learning 3-14 3rd Edition* . SAGE Publications.
- Bassot, B. (2016). *The Reflective Practice Guide* . New York : Routledge .
- Black, P., & William, D. (1996). *Inside the blackbox: raising standards through classroom assessment* . London.
- Brown, G. T. (2016). *Frontiers in Education . Is Assessment for Learning really Assessment?* .
- Campbell, & Campbell. (2009). *Mindful Learning : 101 Proven Strategies for Student and Teacher Success*. Thousand Oaks.
- Cohen, M. (2017). *Research Methods in Education*. Routledge.
- Cowley, S. (2014). *Getting the Buggers to Behave* . Bloomsbury Education.
- David Buchanan, A. H. (1997). *Organizational Behaviour an Introductory Text* . Prentice Hall .
- Dochy, & Alexander. (1995). Mapping Prior Knowledge: A framework for discussion among teachers . *European Journal of Psychology of Education* , 225-242.
- Foster, P. (1996). *Observing Schools: A methodological guide* . Paul Chapman Publishing.
- Jim, C. (n.d.). Retrieved from [http://ritell.memberlodge.org/Resources/Documents/General%20Education%20Resources/the%20three%20pillars%20of%20english%20language%20learning%20\(1\).pdf](http://ritell.memberlodge.org/Resources/Documents/General%20Education%20Resources/the%20three%20pillars%20of%20english%20language%20learning%20(1).pdf).
- Jim, C. (n.d.). *Three Pillars of English Language Learning* .
- Llywodraeth Cymru(2015)Adolygiad Donaldson "Dyfodol Llwyddiannus from https://dera.ioe.ac.uk/22165/2/150225-successful-futures-en_Redacted.pdf
- Marsh, C. (2006). A Critical Analysis of the Use of Formative Assessment in Schools . *APERA Conference* , 3.
- My Local School , 2019.(i)Report on SchoolX. [online] URL unavailable due to BERA guidelines
- Muijs, & Reynolds. (2010). *Effective Teaching: Evidence and Practice* . Sage Publications .
- Phillips, S. (1998). *Perspectives on Learning* . New York: Teaching College Press.
- Robert, M. (2004). *Building Background Knowledge for Academic Achievement: Research on what works in schools* . ASCD.
- Rosenshine, B. (2012). *Priciples of Intruction* . Retrieved from The American Fedration of Teachers : <https://www.aft.org/sites/default/files/periodicals/Rosenshine.pdf>

Runeckles, C. (2018). *Making every history lesson count*. Crown House Publishing .

Soltis, & Phillips. (1998). *Perspectives on Learning (Thinking about education)*. New York: Teachers College Press.

Tripp, D. (2011). *Critical Incidents In Teaching: Developing Professional Judgement* . Routledge .